

# Taflen ffeithiau'r brechiad papilomafirws dynol (HPV): gwybodaeth ar gyfer gweithwyr iechyd, rhieni a phobl ifanc



## Nid yw'r brechiad HPV yn newydd

Mae'r brechiad HPV wedi cael ei ddefnyddio yn y DU ers 2008. Mae mwy na 10 miliwn o ddosys wedi cael eu rhoi yn y DU. Mae mwy nag 80 miliwn o bobl wedi cael eu brechu ym mhob cwr o'r byd.

## Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael eu brechu

Mae mwy nag 8 allan o bob 10 rhiant yn dewis derbyn y brechiad HPV ar gyfer eu plentyn. Mae'r rhan fwyaf o ferched 15 i 24 oed yng Nghymru wedi cael dau ddos o'r brechiad HPV yn yr ysgol ac rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r bechgyn cymwys yn cael eu brechiad yn yr ysgol hefyd erbyn 2020.

## Ydi haint HPV yn gyffredin?

Ydi, mae HPV yn enw ar grŵp cyffredin iawn o firysau. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael rhyw fath o HPV yn eu bywyd. Nid yw'r firysau'n achosi problemau i bawb, ond gall rhai mathau achosi cancer a defaid gwenerol. Gall y mathau sy'n achosi cancer effeithio ar y geg, y gwddw a'r ardal wenerol. Maen nhw'n hawdd eu dal a'u pasio ymlaen drwy gyswllt rhywiol. Nid oes gan haint HPV unrhyw symptomau ar unwaith, felly efallai na fyddwch yn gwybod ei fod gennych chi.

## Dylai merched a bechgyn gael y brechiad yn yr oedrannau a argymhellir

Mae brechu pobl iau yn fwy effeithiol i atal y mathau o haint HPV sy'n cael eu pasio ymlaen drwy gyswllt rhywiol. Felly'r amser gorau i gael eich brechu yw rhwng 12 a 14 oed.

## Ni fydd rhyw diogel yn darparu digon o warchodaeth

Gall HPV ledaenu drwy unrhyw gyswllt rhywiol. Nid yw condoms yn atal y risg o haint yn llwyr.

## Mae'r brechiad HPV yn gweithio

Yng Nghymru, mae gostyngiad sylweddol wedi bod mewn heintiau gyda'r ddau brif fath o HPV sy'n gallu achosi cancer (mathau 16 a 18). Mae ymchwil yn yr Alban wedi dangos gostyngiad – oherwydd traws-warchodaeth mae'n debyg – mewn tri math arall o HPV sy'n gysylltiedig â chanser (mathau 31, 33 a 45). Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod nifer yr anafiadau cyn-ganser yng ngheg y groth wedi gostwng mewn 7 allan o bob 10 merch ifanc ers i'r rhaglen ddechrau.

Hefyd mae'r achosion o ddefaid gwenerol sy'n cael eu hachosi gan HPV (mathau 6 ac 11) wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r rhaglen frechu HPV.

Ceir tystiolaeth o Awstralia, Denmarc a Lloegr bod y brechiad yn cael effaith fawr ar heintiau HPV.

## **Ydi pobl yn rhoi gwybod am fwy o sgil-ffeithiau na'r disgwyl ar ôl HPV?**

Hyd yma, nid yw nifer yr adroddiadau i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am amheuaeth o sgil-ffeithiau ar gyfer y brechiad HPV yn anarferol. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymwneud â mân gyflyrau sydd i'w gweld yn gyffredin wrth frechu pobl ifanc yn eu harddegau (e.e. adwaith lle rhoddyd y pigiad, brech, mân alergedd, teimlo'n sâl, penysgafndod, blinder a llewygu wrth gael y brechiad oherwydd ofn nodwyddau).

**Mae rhaglen y DU wedi cyfrannu eisoes at atal rhagor o farwolaethau o ganser. Rydym yn disgwyl iddi atal cannoedd o farwolaethau o ganser HPV bob blwyddyn yn y dyfodol.**

## **Nid yw'r brechiad yn achosi syndrom blinder cronig**

Nid yw'r dystiolaeth gyfredol yn cefnogi unrhyw gyswllt rhwng y brechiad HPV a blinder cronig. Yn 2013, cynhaliodd yr MHRA astudiaeth fawr yn y DU oedd yn dangos dim cyswllt rhwng y brechiad HPV a salwch fel syndrom blinder cronig (CFS) a ffibromyalgia.

Ers hynny, mae astudiaethau poblogaeth yn y Ffindir, Norwy a'r Iseldiroedd yn yr un modd wedi dangos nad oes unrhyw dystiolaeth o gyswllt. Mae CFS yn digwydd yn naturiol mewn glaslencyndod ac mae dystiolaeth yr astudiaethau hyn, a mwy na 10 mlynedd o ddefnydd, yn awgrymu mai cyd-ddigwyddiad yw adroddiadau am CFS yn dilyn y brechiad HPV.

## **Oes unrhyw ymchwil wedi bod i gyswllt rhwng y brechiad HPV a salwch cronig?**

Yn ystod y 10 mlynedd o ddefnyddio'r brechiad HPV yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd, mae mwy na deg ar hugain o astudiaethau poblogaeth ac adolygiadau wedi cael eu cyhoeddi, ac mae astudiaethau diogelwch annibynnol yn parhau i gael eu cyhoeddi. Nid oes yr un o'r astudiaethau hyn wedi canfod unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cyswllt rhwng y brechiad HPV a datblygu amrywiaeth eang o salwch difrifol a chronig.

Ar wahân i adolygiadau trwyadl gan awdurdodau iechyd y DU, mae sawl awdurdod rhyngwladol, gan gynnwys y Ganolfan ar gyfer Rheoli ac Atal Clefydau yn UDA, Sefydliad Iechyd y Byd a'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd, wedi edrych yn ofalus ar y dystiolaeth ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth gredadwy ar hyn o bryd o gyswllt rhwng y brechiad HPV a salwch cronig amrywiol. Fel gyda phob brechiad, bydd diogelwch y brechiad HPV yn cael ei adolygu'n fanwl ac yn gyson.

## **Mae taflen y cynnyrch yn crybwyll sawl cyflwr difrifol a chronig. Ydi hynny'n golygu bod y brechiad HPV yn achosi'r cyflyrau hyn?**

Mae taflen y cynnyrch yn yr UE yn crybwyll cyflyrau sydd â chyswllt efallai â'r brechiad ond nid yw'r ymchwil presennol wedi canfod unrhyw gyswllt uniongyrchol. Un esiampl yw'r anhwylder nerfol Syndrom Guillain Barre ond nid yw nifer o astudiaethau epidemiolegol wedi canfod unrhyw dystiolaeth o gyswllt â'r brechiad.

**Mae adolygiadau helaeth o ddiogelwch y brechiad wedi dod i'r casgliad nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi cyswllt rhwng y brechiad HPV a datblygu salwch cronig amrywiol.**

## Rhagor o wybodaeth

**Galw Iechyd Cymru** [www.nhsdirect.wales.nhs.uk/livewell/vaccinations/HPVvaccine/?locale=cy](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/livewell/vaccinations/HPVvaccine/?locale=cy)

**Y brechiad HPV: trechu canser ceg y groth – cwestiynau ac atebion**

[http://nww2.nphs.wales.nhs.uk:8080/VaccinationsImmunisationProgsDocs.nsf/3dc04669c9e1eaa880257062003b246b/a02821886f56ae5d8025832300530e04/\\$FILE/PHE%20HPV-for\\_girls-info-sheet.Final%20WELSH.pdf](http://nww2.nphs.wales.nhs.uk:8080/VaccinationsImmunisationProgsDocs.nsf/3dc04669c9e1eaa880257062003b246b/a02821886f56ae5d8025832300530e04/$FILE/PHE%20HPV-for_girls-info-sheet.Final%20WELSH.pdf)

**Gardasil: Crynodeb o Nodweddion y Cynnyrch a Thaflen Wybodaeth i Gleifion**

[www.medicines.org.uk/emc/product/261/smpc](http://www.medicines.org.uk/emc/product/261/smpc)

**Jo's Trust** [www.jostrust.org.uk/about-cervical-cancer](http://www.jostrust.org.uk/about-cervical-cancer)

## Cyfeiriadau

1. Vichnin M et al. An Overview of Quadrivalent Human Papillomavirus Vaccine Safety: 2006 to 2015. *Pediatr Infect Dis J.* 2015 Medi; 34(9):983-91. Ar gael yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/26107345](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/26107345)
2. Grimaldi-Bensouda L et al. Autoimmune disorders and quadrivalent human papillomavirus vaccination of young female subjects. *J Intern Med.* 2014 Ebrill; 275(4):398-408. Ar gael yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/24206418](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/24206418)
3. Pellegrino P et al. On the relationship between human papilloma virus vaccine and autoimmune diseases. *Autoimmun Rev.* 2014 Gorffennaf; 13(7):736-41 Ar gael yn: [www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S1568997214000664](http://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S1568997214000664)
4. Klein NP et al. Safety of quadrivalent human papillomavirus vaccine administered routinely to females. *Arch Pediatr Adolesc Med.* 2012 Rhagfyr; 166(12):1140-8. Ar gael yn: <https://jamanetwork.com/journals/jamapediatrics/fullarticle/1363509>
5. Donegan K et al. Bivalent human papillomavirus vaccine and the risk of fatigue syndromes in girls in the UK. *Vaccine.* 2013 Hydref 9; 31(43):4961-7. Ar gael yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/24001935](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/24001935)
6. Gee J et al. Monitoring the safety of quadrivalent human papillomavirus vaccine: findings from the Vaccine Safety Datalink. *Vaccine.* 2011 Hydref 26; 29(46):8279-84. Ar gael yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/21907257](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/21907257)
7. Cameron RL et al. Adverse event monitoring of the human papillomavirus vaccines in Scotland. *Intern Med J.* 2016 Ebrill; 46(4):452-7. Ar gael yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/26765074](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/26765074)
8. Arnheim-Dahlström L et al. Autoimmune, neurological, and venous thromboembolic adverse events after immunisation of adolescent girls with quadrivalent human papillomavirus vaccine in Denmark and Sweden: cohort study. *BMJ.* 2013 Hydref 9; 347:f5906. Ar gael yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3805482/](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3805482/)
9. European Medicines Agency. Human papillomavirus vaccines - Cervarix, Gardasil, Gardasil 9, Silgard. 2016; Ar gael yn: [www.ema.europa.eu/en/medicines/human/referrals/human-papillomavirus-vaccines-cervarix-gardasil-gardasil-9-silgard](http://www.ema.europa.eu/en/medicines/human/referrals/human-papillomavirus-vaccines-cervarix-gardasil-gardasil-9-silgard)
10. Palmer, T. et al. Prevalence of cervical disease at age 20 after immunisation with bivalent HPV vaccine at age 12-13 in Scotland: retrospective population study. *BMJ.* 2019 Ebrill; 365:1161 Ar gael yn: [www.bmj.com/content/bmj/365/bmj.l1161.full.pdf](http://www.bmj.com/content/bmj/365/bmj.l1161.full.pdf)
11. Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Safety update of HPV vaccines. 2017. Ar gael yn: [www.who.int/vaccine\\_safety/committee/topics/hpv/June\\_2017/en/](http://www.who.int/vaccine_safety/committee/topics/hpv/June_2017/en/)
12. Arbyn, M et al. Prophylactic vaccination against human papillomaviruses to prevent cervical cancer and its precursors. *Cochrane Library.* 2018 Mai. Ar gael yn: [www.cochranelibrary.com/cdsr/doi/10.1002/14651858.CD009069.pub3/abstract?cookiesEnabled](http://www.cochranelibrary.com/cdsr/doi/10.1002/14651858.CD009069.pub3/abstract?cookiesEnabled)
13. Drolet et al. Human papillomavirus vaccination programmes: updated systematic review and meta-analysis. *Lancet.* 2019 Awst; 394 (10197): 497-509. Ar gael yn: [www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(19\)30298-3/fulltext](http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(19)30298-3/fulltext)

© Iechyd Cyhoeddus Cymru Rhagfyr 2019 diwygiwyd ar gyfer ei defnyddio gyda chaniatâd caredig gan Public Health England.